

RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ac yn rhithiol drwy Zoom ar Ddydd Mercher, 10 Ionawr 2024.

[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.

Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].

Yn bresennol: Y Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr Geraint ap Ifan Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, T LI Hughes MBE, John Ifan Jones, R LI Jones, Dafydd Roberts, Alwen Pennant Watkin, Robin Williams a Liz Wood

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Jackie Lewis

Hefyd yn bresennol: Aelodau Lleol: Y Cynghorydd Mrs Margaret M. Roberts (ar gyfer cais 12.2)

Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Cynghorydd Derek Owen

1:00 y. p. tan 1:30 y. p.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 YMWELIADAU SAFLE
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 CEISADAU'N CODI
PENDERFYNIAD	<p>7.1 FPL/2023/61 – Cais llawn ar gyfer newydd defnydd tir amaethyddol i fod yn safle cabanau gwyliau er mwyn lleoli 13 o gabanau gwyliau, adeiladu ffordd newydd ar y safle, addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar tir yn Nhaldwrst, Lôn Fain, Dwyran</p> <p>Penderfynwyd gohirio'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd.</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 CEISIADAU ECONOMAIDD
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 CEISIADAU'N GWYRO
PENDERFYNIAD	<p>10.1 VAR/2023/70 - Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (16) (Manylion yr ardal chwarae) a (44) (Manylion yr ardal chwarae) o ganiatâd cynllunio rhif VAR/2022/44 (Cais hybrid i greu canolfan beirianneg newydd, maes parcio, lle chwarae i blant a chaniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl, gwesty a chyfleuster bwyd a diod ynghyd a lle parcio) er mwyn cyflwyno gwybodaeth a chwblhau'r gwaith ar y lle cyn chwarae cyn meddiannu annedd rhif 61 yng Ngholeg Menai, Ffordd y Coleg, Llangefni</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR ASWYDDOGION

PENDERFYNIAD	<p>11.1 FPL/2023/228 – Cais llawn ar gyfer ymestyn cwrtil preswyl yn Nhyn Lleiniau, Llanfigael</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p><i>(Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon a chadeiriwyd yr eitem gan yr Is-gadeirydd)</i></p>
--------------	--

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 GWEDDILL Y CEISIADAU
PENDERFYNIAD	<p>12.1 FPL/2023/303 – Cais llawn ar gyfer gosod canopi awyr agored, 3 bwrdd tennis awyr agored, 2 bostyn pêl-fasged a gazebo ffrâm bren awyr agored yn Ysgol Syr Thomas Jones, Tanybryn Road, Amlwch</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p>12.2 FPL/2023/146 – Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd newydd ynghyd â gwaith cysylltiedig yng Nghae Graham, Pentraeth</p> <p>Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rheswm a roddwyd.</p> <p>12.3 FPL/2023/232 – Cais llawn ar gyfer codi strwythurau paneli solar ffotofoltäig a chreu cysgodfa ceir oddi tanynt yng Nghyngor Sir Ynys Môn, Llangefni</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p>12.4 FPL/2023/227 - Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol a chodi annedd newydd, ynghyd ag addasu'r fynedfa bresennol, gosod system trin carthffosiaeth, a gwaith cysylltiedig yn Fferm Tŷ Coch, Rhostrehwfa</p> <p>Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rheswm a</p>

	roddwyd.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 MATERION ERAILL
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn.